

## Pleidiau Gwleidyddol

Gelwir y Cod hwn yn [ ] a bydd yn weithredol o [ ]

### Cyflwyniad

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi'i alluogi o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferanda 2000 (PPERA) i baratoi'r Cod statudol hwn ar dreuliau cymwys i bleidiau gwleidyddol [sydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Gweinidog ar gyfer Swyddfa'r Cabinet a Senedd y DU]. Mae'n dilyn ymgynghoriad â phersonau â chyrrff â diddordeb, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, [ ], gyda Swyddfa Gogledd Iwerddon a'i Gweinidogion yn cael eu hysbysu, a chymeradwyaeth i'w gyflwyno i'r Senedd gan y Gweinidog dros [ ] yn Llywodraeth y DU.

### Y pŵer i wneud y Cod

Mae gan y Comisiwn Etholiadol y pŵer o dan Atodlen 8 paragraff 3 o PPERA i baratoi Cod Ymarfer sy'n rhoi canllawiau ynglŷn â'r hyn nad yw'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8.

Mae gan y Comisiwn bŵer cyffredinol hefyd o dan PPERA, Atodlen 1, paragraff 2 i wneud unrhyw beth y cyfrifir ei fod yn hwyluso'r broses o gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn neu sy'n gysylltiedig â chyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r Comisiwn.

### Pa etholiadau a gwmpesir gan y Cod?

Mae'r Cod wedi'i baratoi'n bennaf mewn perthynas ag etholiadau cyffredinol Senedd y Deyrnas Unedig ac mae'n cwmpasu gwariant cymwys y mae angen neu nad oes angen ei gofnodi gan blaid gwleidyddol. Mae hefyd yn gymwys i etholiadau Gogledd Iwerddon.

Ceir rhestr o'r holl etholiadau y mae'r Cod hwn yn gymwys iddynt ar ddiwedd y ddogfen hon.

### Sut mae'r Cod wedi'i drefnu?

Mae'r Cod wedi'i drefnu i gynnwys Adran ar bob mater a restrir yn Atodlen 8 Rhan 1 paragraff 1 o PPERA. Mae'n amlinellu pa dreuliau sydd wedi'u cynnwys mewn ffurflen gwariant etholiad ar gyfer pob mater lle yr aed i'r draul honno wrth hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol i'r blaid mewn unrhyw etholiad perthnasol.

Wedyn bydd Adran yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys er mwyn esbonio ymhellach pa dreuliau etholiad y dylid eu cynnwys ar ffurflen yr ymgeisydd ac sy'n cyfrif tuag at derfyn gwariant ar ymgyrch yr ymgeisydd.

Nodir y diffiniadau a ddefnyddir yn y Cod ar dudalen 4.

## Y Cod i ymgeiswyr

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi paratoi Cod statudol o dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ar dreuliau etholiad ymgeiswyr. Mae'r ddau God yn gweithio gyda'i gilydd i ffurfio fframwaith er mwyn cael mwy o sicrwydd a thryloywder o ran cyllid etholiadau.

## Beth yw goblygiadau torri'r Cod hwn?

Canllawiau statudol yw'r Cod hwn. Lle nad yw swyddog plaid yn dilyn y Cod hwn, efallai y bydd yn mynd yn groes i'r gofyniad statudol i gyflwyno ffurflen gyflawn a chywir. Gall achosion o dorri'r Cod hwn hefyd arwain at gasgliad bod Trysorydd wedi gwneud datganiad anwir a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid am eu ffurflen. Mae'r troseddau hyn yn agored i gosbau.

## Y fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwariant pleidiau gwleidyddol

Mae'n rhaid bod pleidiau gwleidyddol wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol er mwyn sefyll ymgeiswyr mewn etholiadau perthnasol. Mae'r rheolau ar wariant yn gymwys i bleidiau sydd wedi'u cofrestru â'r Comisiwn Etholiadol.

### **Pryd y bydd y rheolau'n gymwys?**

Mae'r rheolau ar wariant yn gymwys yn ystod y cyfnod a nodir yn atodlen 9 i PPERA, sydd hefyd yn nodi'r terfynau gwariant.

### **Gwariant pleidiau gwleidyddol**

Llywodraethir gwariant pleidiau gwleidyddol mewn etholiadau gan Ran V o PPERA.

Mae Adran 72(2) o PPERA yn diffinio gwariant ymgyrch fel treuliau yr eir iddynt gan neu ar ran plaid wleidyddol gofrestredig sy'n dreuliau sy'n dod o dan Ran I o Atodlen 8 ac felly yr eir iddynt at ddibenion etholiadol.

Mae gan y Comisiwn Etholiadol y pŵer o dan Atodlen 8 paragraff 3 o PPERA i baratoi Cod Ymarfer sy'n rhoi canllawiau ynglŷn â'r hyn nad yw'n dod o fewn paragraffau 1 a 2 o Atodlen 8.

Mae Atodlen 8 yn amlinellu'r treuliau cymwys lle yr eir i'r rhain at ddibenion etholiadol. Mae paragraff 1 o atodlen 8 yn rhestru'r materion sy'n dreuliau cymwys ac mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau penodol o dreuliau cymwys.

Diffinnir 'at ddibenion etholiadol' yn adran 72(4) a'i ystyr yw at ddiben y canlynol neu mewn cysylltiad â'r canlynol:

*'(a) hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol i'r blaid mewn unrhyw etholiad perthnasol, hynny yw, ethol ymgeiswyr mewn unrhyw etholiad o'r fath—*

*(i) sy'n sefyll yn enw'r blaid, neu*

*(ii) sydd wedi'u cynnwys mewn rhestr o ymgeiswyr a gyflwynir gan y blaid mewn cysylltiad â'r etholiad; neu*

*(b) fel arall yn gwella statws—*

*(i) y blaid, neu*

*(ii) unrhyw ymgeisydd o'r fath yng ngolwg yr etholwyr mewn cysylltiad ag etholiadau perthnasol yn y dyfodol (p'un a ydynt ar fin cael eu cynnal neu fel arall).'*

Noda adran 72(7) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 hefyd:

*'(7) Nid yw 'gwariant ymgyrch' yn cynnwys unrhyw beth sydd (yn unol ag unrhyw ddeddfiad) i'w gynnwys yn [—*

*(a) ffurflen ynghylch treuliau etholiad mewn perthynas ag ymgeisydd neu ymgeiswyr mewn etholiad penodol.'*

Mae unrhyw beth sydd i'w cynnwys mewn ffurflen ynghylch treuliau etholiad mewn perthynas ag ymgeisydd neu ymgeiswyr mewn etholiad penodol wedi'i eithrio o'r Cod hwn. Mae eitem sy'n hyrwyddo:

- ethol ymgeiswyr sy'n sefyll yn enw'r blaid; ac
- sy'n cael ei lledaenu neu sy'n cael ei thargedu at gynulleidfa yn yr etholaeth lle mae ymgeisydd y blaid yn sefyll ond sydd y tu allan i'r cyfnod lle mae'r rheolau ar wariant i ymgeiswyr yn gymwys

yn wariant ymgyrch i blaid wleidyddol ac mae'n rhaid ei chofnodi yn y ffurflen.

### **Adrodd**

O dan adran 80 o PPERA, mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol gyflwyno ffurflen gwariant ar ôl etholiad y mae'n rhaid iddi gynnwys:

*'(a) a statement of all payments made in respect of campaign expenditure incurred by or on behalf of the party during the relevant campaign period in the relevant part or parts of the United Kingdom;'*

Trysorydd y blaid sy'n gyfrifol am fynd i wariant a chwblhau'r ffurflen, ac eithrio lle mae'r blaid wedi penodi Swyddog Ymgyrchoedd o dan adran 25 o PPERA. Cyflwynir ffurflenni i'r Comisiwn Etholiadol, gyda'r amseriad yn dibynnu ar y swm y mae'r blaid wedi'i gwario.

Mae gofyniad hefyd ar y trysorydd i lofnodi datganiad bod y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir. Mae'n drosedd gwneud datganiad anwir yn fwriadol neu'n ddi-hid.

### **Diogelu Data**

Cyfrifoldeb y blaid wleidyddol yw sicrhau bod y gweithgareddau y maent yn ymgymryd â hwy yn cydymffurfio â'r rheolau ar ddiogelu data. Ceir rhagor o wybodaeth am ddiogelu data yn : <https://ico.org.uk/for-organisations/political/>.

# Y Cod

## Diffiniadau

Yn y Cod hwn mae'r diffiniadau canlynol yn gymwys:

Mae i'r gair '**cost**' ei ystyr arferol, sef traul sy'n gysylltiedig ag eitem ond mae **hefyd** yn cynnwys y swm priodol fel yr aed iddo gan y blaid o dan y rheolau ar 'gwariant tybiannol'. Mae gwariant tybiannol yn digwydd pan gaiff eitem ei derbyn am ddim neu ar gyfradd anfasnachol (adran 73 o PPERA).

Ystyr '**eitem**' yw darn penodol o wariant sy'n dod o fewn mater a restrir yn Atodlen 8 o PPERA a gall gynnwys gweithgarwch. Nid yw'n cynnwys materion sy'n eithriedig fel arfer a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 8.

Ystyr '**plaid wleidyddol**' yw plaid sydd wedi'i chofrestru o dan Ran II o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.

Ystyr '**cyfnod a reoleiddir**' yw'r 'cyfnod perthnasol' ar gyfer etholiad fel y'i nodir yn Atodlen 9 i PPERA.

Ystyr '**ffurflen**' yw 'ffurflen gwariant' i blaid wleidyddol fel sy'n ofynnol o dan adran 80 o PPERA a lle y bo'n gymwys, fel y'i rhagnodir gan y Comisiwn Etholiadol

Ystyr '**terfyn gwariant**' yw'r uchafswm y gall plaid wleidyddol ei wario mewn etholiad wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio'r symiau a nodir yn Atodlen 9 i PPERA.

## Termau arall:

Mae i dermau eraill yn y ddogfen hon yr un ystyr ag yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac, lle y bo'n berthnasol, yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Ceir tabl o'r rhain ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Nid yw'r cod yn hollgynhwysfawr.

Mae'r rhestr a nodir isod ynghylch pa dreuliau y mae'n rhaid eu cofnodi mewn ffurflen gwariant yn gynhwysol yn hytrach nag yn hollgynhwysfawr. Efallai y bydd amgylchiadau'n codi pan nad yw traul wedi'i rhestru yn y Cod ond yr eir iddi neu a ddefnyddir gan blaid at ddibenion etholiadol, ac mae'n rhaid i'r draul honno ac unrhyw gostau cysylltiedig sy'n deillio ohoni gael eu cofnodi ar y ffurflen gwariant.

## Costau sydd wedi'u heithrio

Mae Atodlen 8, paragraff 2 o PPERA yn cynnwys rhestr o eithriadau. Ni fydd dim yn y Cod hwn yn cael ei ystyried fel petai'n ymestyn i:

- (a) unrhyw dreuliau mewn perthynas â chylchlythyrau neu gyhoeddiadau tebyg a gyhoeddir gan neu ar ran y blaid gyda'r nod o roi gwybodaeth i etholwyr mewn ardal etholiadol benodol am farn neu weithgareddau eu cynrychiolwyr etholedig neu ymgeiswyr presennol neu ddarpar ymgeiswyr, neu wybodaeth berthnasol eraill mewn perthynas â hwy;
- (b) unrhyw dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas â deunydd digymell a gyfeirir at aelodau plaid;
- (c) unrhyw dreuliau mewn perthynas ag unrhyw eiddo, gwasanaethau neu gyfleusterau i'r graddau y mae'r treuliau hyn i'w talu drwy arian cyhoeddus;
- (d) unrhyw dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas â'r gydnabyddiaeth neu'r lwfansau sy'n daladwy i unrhyw aelod o staff (boed hwy'n aelodau parhaol o staff neu fel arall) y blaid. neu
- (e) unrhyw dreuliau yr eir iddynt mewn perthynas ag unigolyn oherwydd treuliau teithio (drwy unrhyw ddull cludo) neu wrth ddarparu llety iddo [iddi] neu anghenion personol eraill i'r graddau y mae'r treuliau yn cael eu talu gan yr unigolyn o'i (h)adnoddau ei hun ac nad ydynt yn cael eu (h)ad-dalu iddo [iddi].

## Materion penodol a nodir yn Atodlen 8 paragraff 1

### Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (1) PPERA

*‘Darllediadau pleidiau gwleidyddol.*

***Mae treuliau mewn perthynas â darllediadau o’r fath yn cynnwys ffioedd asiantaeth, costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi neu gynhyrchu darllediadau o’r fath.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

### Gwasanaethau, Cyfarpar, Cyfleusterau neu Safleoedd a ddarperir gan eraill

1.1 Mae’n cynnwys cost llogi unrhyw asiantaeth a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r cynnwys neu i ddarlledu’r cynnwys.

1.2 Mae’n cynnwys cost llogi neu ddefnyddio unrhyw safle i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r cynnwys neu i ddarlledu’r cynnwys.

1.3 Mae’n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r cynnwys neu i ddarlledu’r cynnwys.

1.4 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau proffesiynol a ddarperir gan unrhyw unigolyn neu gwmni a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r cynnwys neu i ddarlledu’r cynnwys.

### Gorbenion a chostau cysylltiedig

1.5 Mae’n cynnwys cost (gan gynnwys ffi trwydded) unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i’w defnyddio ar unrhyw ddyfais i ddylunio a chynhyrchu cynnwys mewnol.

1.6 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i’r rhyngwyd sy’n gysylltiedig â pharatoi neu gynhyrchu’r darllediad.

1.7 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o rent a biliau trydan lle mae plaid wleidyddol yn defnyddio cyfleusterau sy’n bodoli eisoes neu gyfarpar y mae’n berchen arno neu sydd ar ei safle.

1.8 Mae’n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy’n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â’r darllediad i’r blaid lle mae’r blaid yn talu neu’n ad-dalu’r gost honno.

1.9 Mae hyn yn cynnwys cost cael cyngor cyfreithiol penodol sy’n ymwneud â chynnwys y darllediad.

## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (2) PPERA**

***‘Hysbysebion o unrhyw fath (pa gyfrwng bynnag a ddefnyddir). Mae treuliau mewn perthynas â hysbysebion o’r fath yn cynnwys ffioedd asiantaeth, costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu, dosbarthu neu fel arall ledaenu hysbysebion o’r fath neu unrhyw beth sy’n ymgorffori hysbysebion o’r fath ac y bwriedir iddo gael ei ddosbarthu at ddibenion ei ledaenu.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Mae hysbysebion yn cynnwys ymgyrchu negyddol yn erbyn plaid arall.**

2.1 Mae hysbysebion yn cynnwys cynhyrchu a lledaenu unrhyw fath o ddeunydd sy’n hyrwyddo’r blaid, gan gynnwys hybu enw da’r blaid drwy ddeunydd hysbysebu negyddol yn erbyn plaid arall.

**Gwasanaethau, cyfarpar, cyfleusterau neu safleoedd**

2.2 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r deunydd hysbysebu.

2.3 Mae’n cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth i ledaenu’r deunydd hysbysebu drwy ei ddosbarthu neu fel arall.

2.4 Mae’n cynnwys cost llogi neu ddefnyddio unrhyw safle, ac eithrio safle y mae’r blaid yn berchen arno, neu unrhyw gyfleusterau eraill ar gyfer paratoi, cynhyrchu, lledaenu neu ddosbarthu’r deunydd hysbysebu.

2.5 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau proffesiynol a ddarperir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r deunydd hysbysebu.

2.6 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau proffesiynol i ledaenu neu ddosbarthu’r deunydd hysbysebu.

2.7 Mae’n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o baratoi neu gynhyrchu’r deunydd hysbysebu.

2.8 Mae’n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol i ledaenu neu ddosbarthu’r deunydd hysbysebu.

**Costau penodol mewn cysylltiad â chynhyrchu neu ledaenu deunydd hysbysebu digidol neu electronig**

2.9 Mae’n cynnwys cost (gan gynnwys ffi trwydded) unrhyw feddalwedd o unrhyw fath i’w defnyddio ar unrhyw ddyfais i ddylunio a chynhyrchu cynnwys mewnol, p’un

a gaiff y deunydd hwnnw ei ddosbarthu'n ddigidol, yn electronig neu drwy ddulliau eraill.

2.10 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol, gwasanaethau proffesiynol neu safleoedd a ddefnyddir i gynhyrchu neu hwyluso deunydd hysbysebu digidol neu electronig neu eu defnyddio am ddim neu am bris gostyngol.

2.11 Mae'n cynnwys cost datblygu deunydd hysbysebu:

- i'w lawrlwytho a'i ddefnyddio gan unigolion eraill; neu
- i'w ledaenu drwy ddulliau digidol neu electronig gan unigolion eraill, er enghraifft i'w ddosbarthu drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

2.12 Mae'n cynnwys cost datblygu unrhyw feddalwedd ar gyfer unrhyw fath o ddyfais i dargedu, hwyluso neu ledaenu deunydd i bleidleiswyr, er enghraifft cymhwysiad meddalwedd i'w ddefnyddio ar ddyfais symudol.

2.13 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw asiantaeth, sefydliad neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso'r broses o gynhyrchu'r deunydd hysbysebu a chost dosbarthu neu ledaenu'r deunydd hysbysebu hwnnw drwy unrhyw ddull, gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull. Er enghraifft, prynu lle mwy blaenllaw ar dudalen mewn chwilotwr.

2.14 Mae'n cynnwys cost datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hyrwyddo deunydd neu sy'n ei wneud yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull. Er enghraifft, prynu hunaniaethau digidol a ddefnyddir i wneud deunydd i ymddangos fel petai wedi cael ei weld a'i gymeradwyo gan nifer fawr o ddefnyddwyr ar lwyfan cyfrwng cymdeithasol.

2.15 Mae'n cynnwys cost sefydlu a chynnal gwefan neu ddeunydd electronig/digidol arall sy'n hyrwyddo'r blaid.

2.16 Mae'n cynnwys cost dylunio a chreu'r wefan neu'r cynnwys, ac mae'n cynnwys cyfran o unrhyw wefan neu gynnwys a sefydlir i godi arian ar gyfer y blaid ond sydd hefyd yn hyrwyddo'r blaid yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

## Costau eraill

2.17 Mae hyn yn cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd hysbysebu yn cael ei argraffu arno.

2.18 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi cyfarpar llungopiö neu argraffydd i'w ddefnyddio yn ystod ymgyrch.

2.19 Mae'n cynnwys cyfran o'r costau i'w ddefnyddio yn ystod y cyfnod a reoleiddir lle mae'r cyfarpar hwnnw eisoes wedi'i logi gan y blaid wleidyddol.



2.20 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i'r rhyngwyd sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu, lledaenu a dosbarthu deunydd hysbysebu yn fewnol.

2.21 Mae'n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd hysbysebu i'r blaid, lle mae'r blaid yn talu neu'n ad-dalu'r gost honno.

2.22 Mae'n cynnwys cost cael cyngor cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chynnwys darn o ddeunydd hysbysebu lle yr eir i'r gost hon mewn perthynas â chynhyrchu deunydd yr ymgyrch.

2.23 Mae'n rhaid cynnwys y gost sy'n gysylltiedig ag arddangos hysbysebion yn ffisegol mewn unrhyw leoliad ar y ffurflen, er enghraifft clymau neu lud i osod posteri.

### **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (3) PPERA**

***‘Deunydd digymell a gyfeirir at etholwyr (p’un a yw wedi’i gyfeirio atynt yn ôl enw neu y bwriedir iddo gael ei ddsbarthu i gartrefi o fewn unrhyw ardal benodol neu ardaloedd penodol).***

***Mae treuliau mewn perthynas â deunydd o’r fath yn cynnwys costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, cynhyrchu neu ddsbarthu deunydd o’r fath (gan gynnwys cost postio).’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

**Costau sy’n gysylltiedig â thargeddu neu nodi pleidleiswyr, gan gynnwys costau cronfeydd data.**

3.1 Mae hyn yn cynnwys cost llogi, prynu, datblygu a chynnal meddalwedd TG neu gronfeydd data o fanylion cyswllt er mwyn hwyluso’r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr.

3.2 Mae’n cynnwys cost cael a chynnal unrhyw wybodaeth, drwy ba ddull bynnag y bo, a ddefnyddir i hwyluso’r broses o anfon deunydd digymell at bleidleiswyr. Er enghraifft, prynu cyfeiriadau e-bost.

3.3 Mae’n cynnwys cost cael neu ddatblygu setiau data sydd i dargeddu pleidleiswyr drwy ba ddull bynnag y bo, gan gynnwys cost asiantaethau sy’n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba ddull bynnag y bo. Er enghraifft, cost dadansoddi cynnwys cyfryngau cymdeithasol er mwyn hwyluso’r broses o dargeddu pleidleiswyr mewn ardaloedd etholaethol a chost modelu sy’n seiliedig ar y dadansoddiad hwnnw.

3.4 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau i nodi pleidleiswyr sy’n cael eu prynu, eu datblygu neu eu darparu cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir i dargeddu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

3.5 Lle mae’r wybodaeth honno wedi’i chael gan drydydd parti, mae cost cael y wybodaeth honno wedi’i chynnwys.

**Costau sy’n gysylltiedig â dosbarthu deunydd digymell at bleidleiswyr, gan gynnwys drwy ddulliau digidol**

3.6 Mae hyn yn cynnwys cost defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth, sefydliad neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu deunydd digymell a chost dosbarthu neu ledaenu’r deunydd hwnnw drwy unrhyw ddull, gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli i broses o wneud y deunydd yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull.

3.7 Mae’n cynnwys cost creu deunydd digymell i hyrwyddo’r blaid drwy ei gyhoeddi ar unrhyw fath o gyfrwng cymdeithasol. Er enghraifft, cynhyrchu cynnwys sydd

wedyn yn cael ei gyhoeddi ar dudalen plaid ar safle cyfrwng cymdeithasol ac sy'n annog dilynwyr i'w rannu.

3.8 Mae'n cynnwys cost datblygu a chynnal unrhyw rwydwaith digidol neu rwydwaith arall sy'n hyrwyddo deunydd digymell ar unrhyw lwyfan neu sy'n ei wneud yn fwy gweladwy ar unrhyw lwyfan. Er enghraifft, mae ymgeisydd yn talu datblygwr i greu rhwydwaith sy'n hyrwyddo ei ddeunydd ar lwyfan cyfrwng cymdeithasol.

3.9 Mae'n cynnwys cost dosbarthu deunydd drwy ddulliau electronig a dosbarthu'r deunydd yn ffisegol, er enghraifft cost amlenni a stampiau neu brynu system ar gyfer anfon negeseuon e-bost.

3.10 Mae'n cynnwys cost goruchwyllo a chynnal pob cyfrwng cymdeithasol/dull digidol neu ddull arall o ledaenu gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys cynnal pob tudalen we neu gyfrif cyfrwng cymdeithasol cysylltiedig (gan gynnwys os ydynt yn cael eu cynnal gan endid/unigolyn arall).

### Costau eraill

3.11 Mae hyn yn cynnwys cost papur neu unrhyw gyfrwng arall y mae'r deunydd digymell yn cael ei argraffu arno.

3.12 Mae'n cynnwys cost prynu neu logi cyfarpar llungopïo neu argraffydd i'w ddefnyddio yn ystod ymgyrch.

3.13 Mae'n cynnwys cyfran o'r costau i'w ddefnyddio yn ystod y cyfnod a reoleiddir lle mae'r cyfarpar hwnnw eisoes wedi'i logi gan y blaid wleidyddol.

3.14 Mae'n cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i'r rhyngrwyd sy'n gysylltiedig â pharatoi, cynhyrchu, lledaenu a dosbarthu deunydd digymell yn fewnol.

3.15 Mae hyn yn cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â deunydd digymell i'r blaid, lle mae'r blaid yn talu neu'n ad-dalu'r gost honno.

3.16 Mae'n cynnwys cost cael cyngor cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chynnwys darn o ddeunydd digymell lle yr eir iddi mewn perthynas â chynhyrchu'r deunydd.

## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (4) PPERA**

***‘Unrhyw fanifesto neu ddogfen arall sy’n amlinellu polisiau’r blaid. Mae treuliau mewn perthynas â dogfen o’r fath yn cynnwys costau dylunio a chostau eraill mewn cysylltiad â pharatoi, neu gynhyrchu neu ddsbarthu neu fel arall ledaenu unrhyw ddogfen o’r fath.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

### **Gwasanaethau, Cyfarpar, Cyfleusterau neu Safleoedd**

4.1 Mae hyn yn cynnwys costau llogi unrhyw asiantaeth a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu unrhyw fanifesto neu ddogfen arall, gan gynnwys dogfennau electronig neu ddigidol.

4.2 Mae’n cynnwys costau unrhyw asiantaeth i ledaenu neu ddsbarthu’r manifesto neu ddogfen arall.

4.3 Mae’n cynnwys cost llogi neu ddefnyddio unrhyw safleoedd neu gyfleusterau a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu, lledaenu neu ddsbarthu’r manifesto neu ddogfen arall.

4.4 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau proffesiynol a ddarperir gan unigolyn neu gwmni i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r manifesto neu ddogfen arall.

4.5 Mae’n cynnwys cost unrhyw wasanaethau proffesiynol i ledaenu neu ddsbarthu’r manifesto neu ddogfen arall.

4.6 Mae’n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r manifesto neu ddogfen arall.

4.7 Mae’n cynnwys cost prynu neu logi unrhyw gyfarpar arbenigol i ledaenu neu ddsbarthu’r manifesto neu ddogfen arall.

4.8 Mae’n cynnwys costau unrhyw asiantaeth, sefydliad neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu’r manifesto neu ddogfen arall a chost ddsbarthu neu ledaenu’r cynnwys hwnnw drwy ddulliau eraill, gan gynnwys unrhyw gost y gellir ei phriodoli i wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy ddulliau eraill.

4.9 Mae’n cynnwys cost darparu’r manifesto neu ddogfen arall ar ffurf electronig neu ffisegol a phob dull o’i (l)ledaenu.

### **Costau eraill sydd wedi’u cynnwys**

4.10 Mae hyn yn cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i’r rhyngwyd sy’n gysylltiedig ag unrhyw gostau mewnol am ddylunio’r manifesto neu ddogfen arall a’i gynhyrchu/chynhyrchu a’i (l)ledaenu.

4.11 Mae'n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy'n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â'r maniffesto i'r blaid, lle mae'r blaid yn talu neu'n ad-dalu'r gost honno.

4.11 Mae'n cynnwys cost cael cyngor cyfreithiol penodol sy'n ymwneud â chynnwys y maniffesto neu ddogfen arall lle yr eir iddi mewn perthynas â chynhyrchu'r deunydd.

## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (5) PPERA** ***‘Ymchwil i’r farchnad neu ganfasio a gynhelir er mwyn canfod bwriadau pleidleisio.’***

Mae’r paragraff hwn yn Costau cynnwys:

### **Costau cael neu gynnal data**

5.1 Mae hyn yn cynnwys cost prynu, datblygu a chynnal meddalwedd TG neu gronfeydd data o fanylion cyswllt er mwyn hwyluso’r broses o gynnal ymchwil i’r farchnad neu ganfasio. Mae hyn yn cynnwys costau yr aed iddynt cyn y cyfnod a reoleiddir lle mae’r data yn cael eu defnyddio wedyn yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

5.2 Mae’n cynnwys cost cael neu ddatblygu setiau data i gynnal ymchwil i’r farchnad neu ganfasio mewn ardal etholiadol drwy ba ddull bynnag y bo, gan gynnwys cost defnyddio neu logi asiantaethau sy’n nodi grwpiau o bleidleiswyr, drwy ba ddull bynnag y bo. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys cost asiantaeth sy’n ymwneud â gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol a dadansoddi’r canlyniad er mwyn hwyluso’r broses o dargedu pleidleiswyr.

5.3 Mae’n cynnwys cost prynu gwybodaeth, data neu wasanaethau i gynnal ymchwil i’r farchnad neu ganfasio cyn y cyfnod a reoleiddir, ond a ddefnyddir wedyn i dargedu pleidleiswyr yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

### **Costau eraill**

5.4 Mae hyn yn cynnwys cost llinellau ffôn ychwanegol, cyfarpar cyfrifiadurol, cyfleusterau neu galedwedd i’w gwneud yn bosibl i gynnal ymchwil i’r farchnad neu ganfasio, gan gynnwys lle mae angen safleoedd ychwanegol.

5.5 Mae’n cynnwys y gost sy’n gysylltiedig ag unrhyw weithgarwch canfasio ar ran y blaid gan unigolyn, gan gynnwys cost bwyd neu lety y mae’r blaid yn ei had-dalu.

5.6 Mae’n cynnwys cost unrhyw gyfarpar sydd ei angen yn benodol i gydlynu neu gofnodi canlyniadau unrhyw weithgarwch canfasio, er enghraifft gliniaduron neu lechi os cânt eu defnyddio ar gyfer canfasio; neu ffonau symudol os cânt eu defnyddio gan arweinydd/cydlynnydd y gweithgarwch canfasio.

5.7 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, bil trydan, rhentu ffonau a mynediad i’r rhyngwyd sy’n gysylltiedig â chynllunio gweithgarwch canfasio, drafftio sgriptiau, dadansoddi canlyniadau interim neu weithgareddau cysylltiedig eraill.

5.8 Mae’n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy’n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â’r ymchwil i’r farchnad neu ganfasio i’r blaid, lle mae’r blaid yn talu neu’n ad-dalu’r gost honno.

## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (6) PPERA**

### ***‘Darparu unrhyw wasanaethau neu gyfleusterau mewn cysylltiad â chynadleddau i’r wasg neu ymwneud arall â’r cyfryngau.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

#### **Costau hyrwyddo deunydd**

6.1 Mae hyn yn cynnwys costau defnyddio neu logi unrhyw asiantaeth neu unigolyn a ddefnyddir i baratoi, cynhyrchu neu hwyluso’r broses o gynhyrchu cynnwys a chost dosbarthu neu ledaenu’r cynnwys hwnnw drwy unrhyw ddull, gan gynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli i broses o wneud y cynnwys yn fwy gweladwy drwy unrhyw ddull.

#### **Costau sydd wedi’u cynnwys**

6.2 Mae hyn yn cynnwys cost meddalwedd arbenigol ar gyfer y wasg neu’r cyfryngau neu danysgrifiadau.

6.3 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o rent a biliau trydan lle mae gan ymgyrchydd gyfleusterau sy’n bodoli eisoes i gynnal cynadleddau i’r wasg ar ei safle.

6.4 Mae’n cynnwys cyfran berthnasol o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i’r rhyngwyd sy’n gysylltiedig ag ymdrin â’r cyfryngau, megis cydlynu cynadleddau i’r wasg neu weithgarwch gyda’r cyfryngau, neu ddrafftio datganiadau i’r wasg, neu weithgareddau eraill sy’n ymwneud â’r wasg.

6.5 Mae’n cynnwys cost bwyd neu lety i unrhyw unigolyn sy’n darparu gwasanaethau mewn cysylltiad â chynadleddau i’r wasg neu ymwneud arall â’r wasg, i’r blaid, lle mae’r blaid yn talu neu’n ad-dalu’r gost honno.

## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (7) PPERA**

***‘Cludo personau (drwy unrhyw dull) i unrhyw le neu leoedd gyda’r nod o gael cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad ag ymgyrch etholiadol.***

***Mae treuliau mewn perthynas â chludo personau o’r fath yn cynnwys cost llogi dull cludo penodol am gyfnod cyfan yr ymgyrch etholiadol neu ran ohono.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

### **Cludo gwirfoddolwyr neu ymgyrchwyr**

7.1 Mae’n cynnwys costau cludo gwirfoddolwyr, aelodau o staff y blaid neu ymgyrchwyr eraill o amgylch yr etholaeth, gan gynnwys cost llogi unrhyw gludiant o’r fath a chostau tanwydd, lle maent yn ymgyrchu ar ran y blaid.

7.2 Mae’n cynnwys costau cludo gwirfoddolwyr, aelodau o staff y blaid neu ymgyrchwyr i’r etholaeth ac o’r etholaeth, gan gynnwys cost llogi unrhyw gludiant o’r fath a chostau tanwydd, lle maent yn ymgyrchu ar ran y blaid.

### **Cludiant i arweinydd y blaid**

7.3 Mae hyn yn cynnwys cost cludo arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o’r blaid i ddigwyddiadau neu etholaethau, lle mae arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o’r blaid yn ymgyrchu ar ran y blaid.

### **Costau eraill**

7.4 Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw gerbyd neu fath o gludiant sy’n arddangos deunydd sy’n hyrwyddo’r blaid, gan gynnwys unrhyw gostau sy’n gysylltiedig â theithio rhwng etholaethau ac o amgylch etholaeth.

7.5 Mae’n cynnwys cyfran o gostau swyddfa, trydan, rhentu ffonau a mynediad i’r rhyngwyd lle mae’r rhain yn gysylltiedig â chynllunio a threfnu cludiant.



## **Atodlen 8 rhan 1 paragraff 1 (8) PPERA**

***‘Raliau a digwyddiadau eraill, gan gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus (ond nid cynadleddau blynyddol na chynadleddau eraill y blaid) a drefnir er mwyn cael cyhoeddusrwydd mewn cysylltiad ag ymgyrch etholiadol neu at ddibenion sy’n gysylltiedig ag ymgyrch etholiadol. Mae treuliau mewn perthynas â digwyddiadau o’r fath yn cynnwys costau yr eir iddynt mewn cysylltiad â phresenoldeb personau mewn digwyddiadau o’r fath, hurio safleoedd at ddibenion cynnal digwyddiadau o’r fath neu ddarparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau ynddynt.’***

Mae’r paragraff hwn yn cynnwys:

### **Costau sydd wedi’u cynnwys**

8.1 Mae hyn yn cynnwys cost unrhyw eitemau sy’n hyrwyddo’r digwyddiad, drwy unrhyw ddull.

8.2 Mae’n cynnwys cost defnyddio safle ar gyfer digwyddiad, gan gynnwys safleoedd a ddefnyddir i ffrydio digwyddiad yn fyw.

8.3 Mae’n cynnwys cost ffrydio digwyddiad yn fyw, yn ogystal â chost digwyddiad a gynhelir drwy ddolen o unrhyw fath, lle mae’r digwyddiad hwnnw yn agored i’w weld gan ddefnyddwyr llwyfan.

8.4 Mae’n cynnwys llogi neu brynu unrhyw gyfarpar neu wasanaethau arbenigol sydd eu hangen ar gyfer y digwyddiad, gan gynnwys cyfarpar ar gyfer darlledu neu ffrydio’r digwyddiad

8.5 Mae’n cynnwys cost darparu unrhyw nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau yn y digwyddiad, er enghraifft cost llogi seddi.

8.6 Mae’n cynnwys cost cludo’r rhai sy’n mynd i ddigwyddiad lle mae’r blaid yn ad-dalu neu’n talu’r gost honno.

8.7 Mae’n cynnwys cost llety a threuliau eraill i unrhyw un sy’n bresennol lle mae’r blaid yn talu neu’n ad-dalu’r gost honno.

### **Costau nad ydynt wedi’u cynnwys**

8.8 Nid yw hyn yn cynnwys cost mesurau diogelwch ar gyfer arweinydd y blaid wleidyddol ac aelodau blaenllaw eraill o’r blaid mewn digwyddiad o’r fath.

## **Egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i bob traul etholiad yr eir iddi**

### **1. Ailddefnyddio eitemau y talwyd amdanynt ac a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol**

1.1 Ni ddylid dosrannu na disgowntio eitemau y telir amdanynt neu a ddefnyddir mewn etholiad gan blaid wleidyddol am y gallant gael eu hailddefnyddio neu y byddant yn cael eu hailddefnyddio mewn etholiad neu etholiadau dilynol. Mae'n rhaid i gost lawn eitemau gael ei chofnodi ar y ffurflen yn yr etholiad lle y defnyddir yr eitem yn gyntaf.

1.2 Mae cost lawn eitemau a all gael eu hailddefnyddio neu a fydd yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad cyntaf lle y cânt eu defnyddio.

1.3 Nid oes angen cofnodi cost prynu eitemau:

- y talwyd amdanynt yn llawn (a gawsant eu perchenogi yn hytrach na'u llogi);
- a ddefnyddiwyd mewn etholiad blaenorol;
- a gofnodwyd yn llawn ar ffurflen gwariant y blaid mewn etholiad blaenorol;
- nad ydynt wedi cael eu newid mewn unrhyw ffordd

ar y ffurflen gwariant, naill ai fel gwariant tybiannol neu fel arall, i'r un blaid wleidyddol mewn etholiad dilynol.

1.4 Nid yw costau prynu eitemau y mae'r blaid yn berchen arnynt ac nad ydynt yn cael eu hailddefnyddio yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant mewn etholiadau dilynol.

1.5 Fodd bynnag, mae'n rhaid cofnodi pob cost yr eir iddi wrth hwyluso'r ailddefnydd o eitem mewn etholiad dilynol, gan gynnwys:

- storio,
- glanhau;
- newid a/neu ychwanegu
- cynnal a chadw; a/neu
- ailddatblygu

ar y ffurflen ar gyfer yr etholiad dilynol lle y caiff yr eitemau eu defnyddio eto.

1.6 Mae'r costau yr eir iddynt wrth hwyluso'r ailddefnydd yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant yn yr etholiad dilynol lle y caiff eu hailddefnyddio.

### **2. Eitemau nas defnyddiwyd o gwbl**

2.1 Nid yw eitemau y talwyd amdanynt ac nas defnyddiwyd mewn etholiad yn cael eu hystyried yn dreuliau etholiad yr aed iddynt at ddibenion etholiadol ac nid oes angen eu cofnodi ar y ffurflen.

### **3. Eitemau yr aed iddynt neu y talwyd amdanynt cyn cychwyn y cyfnod a reoleiddir**

3.1 Mae'n rhaid i wariant yr aed iddo cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, ar eitemau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir gael ei gofnodi ar y ffurflen. Mae'n rhaid i eitemau y talwyd amdanynt cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod a reoleiddir gael eu cofnodi ar y ffurflen.

3.2 Mae cost eitemau lle yr aed i'r gwariant neu lle y talwyd am y costau cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau ond a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid.

### **4. TAW**

4.1 Mae'n rhaid i bob eitem gael ei chofnodi gan gynnwys TAW.

4.2 Lle y codir TAW ar eitem, mae swm y TAW yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

### **5. Gorbenion ac eitemau cysylltiedig**

5.1 Lle mae costau'n gysylltiedig ag eitemau yr eir iddynt y mae'n rhaid eu cofnodi, mae'n rhaid i gostau neu gyfran o gostau:

- swyddfa
- biliau trydan
- darparu llinellau ffôn a mynediad i'r rhyngwyd
- darparu cyfarpar swyddfa o unrhyw fath

hefyd gael eu cofnodi ar y ffurflen a byddant yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

5.2 Mae'n rhaid i unrhyw gostau cysylltiedig hefyd gael eu cofnodi a byddant yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

### **6. Eitemau sydd wedi'u heithrio**

6.1 Nid oes digon o gysylltiad rhwng cost dŵr, nwy na'r dreth gyngor a mynd i gost eitem o wariant ac nid oes angen eu cofnodi ar ffurflen.

## **7. Eitemau sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid**

7.1 Bydd eitemau sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid yn wariant ymgyrch ac mae'n rhaid iddynt gael eu cofnodi gan y blaid, oni fydd yr eitem yn cael ei dosbarthu neu oni fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr etholaeth lle mae arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn sefyll etholiad a'i bod yn hyrwyddo ethol arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn yr etholaeth honno neu wedi'i hanelu at sicrhau ethol arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn yr etholaeth honno.

7.2 Bydd cost eitemau sy'n cynnwys arweinydd y blaid neu aelodau blaenllaw o'r blaid yn cyfrif tuag at derfyn gwariant y blaid oni fydd yr eitem yn cael ei dosbarthu neu oni fydd y digwyddiad yn cael ei gynnal yn yr etholaeth lle mae arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn sefyll etholiad a'i bod yn hyrwyddo ethol arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn yr etholaeth honno neu wedi'i hanelu at sicrhau ethol arweinydd y blaid neu'r aelod blaenllaw o'r blaid yn yr etholaeth honno.

## Termau arall:

Mae i dermau eraill yn y ddogfen hon yr un ystyr ag yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ac, lle y bo'n berthnasol, yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

<b>Tabl o'r diffiniadau o PPERA a Deddf Cynrychiolaeth y Bobl</b>	
Swm priodol	Adran 73 o PPERA
Gwariant ar yr ymgyrch	Adran 72 o PPERA
Treuliau Etholiad	Adran 90ZA o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl
Ffurflen gwariant	Adran 80 o PPERA
Gwariant Tybiannol	Adran 73 o PPERA

## Etholiadau sy'n gymwys

Mae'r Cod hwn yn gymwys i'r etholiadau canlynol:

- Etholiadau cyffredinol Senedd y DU
- Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon

Lle mae cyfnod a reoleiddir mewn grym ar gyfer Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU, mae'r Cod hwn yn cwmpasu gwariant o dan a72 ym mhob etholiad perthnasol. Mae hyn yn cynnwys

- Etholiadau Maerol Awdurdod Cyfunol
- Etholiadau ar gyfer Awdurdod Llundain Fwyaf
- Etholiadau maerol yn Lloegr
- Etholiadau lleol yn Lloegr
- Etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- Etholiadau lleol yn yr Alban
- Etholiadau lleol yng Nghymru
- Unrhyw is-etholiad

Lle mae cyfnod a reoleiddir cyfun yn weithredol o dan Atodlen 9 o PPERA, bydd y Cod hwn hefyd yn cwmpasu'r etholiadau canlynol:

- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru

